GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 5) 2022

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn rhoi'r cyfyngiadau parcio a nodir yn Atodlen isod ar waith.
2. Gellir archwilio manylion llawn y cynigion, gan gynnwys y Gorchymyn arfaethedig a'r Cynllun Rhif T/22/8/WS ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a all fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF954) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **Dydd Gwener 5 Awst 2022** ac mae'n rhaid cynnwys eich sail dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN 1

Mewnosod yn y rhestrau map AV50
Gwaharddiad Arfaethedig ar Aros, Llwytho a Dadlwytho o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am tan 9.30am a 2.30pm tan 4pm.
Ffordd y Coleg Y Barri
Ar yr ochr de-orllewin o bwynt 5 metr i'r gogledd-orllewin o'r llinell ffin rhwng rhifau eiddo 63 a 65 i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 10 metr.

ATODLEN 2

Dirymu Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am tan 9.30am a 3pm tan 4pm.
Ffordd y Coleg Y Barri
Ar yr ochr de-orllewin o bwynt 5 metr i'r gogledd-orllewin o'r llinell ffin rhwng rhifau eiddo 63 a 65 i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 10 metr.

Dyddiedig 14 Gorffennaf 2022.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA